


CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION CYFARFOD ARBENNIG PWYLLGOR LLAWN

drwy gyfrwng Microsoft Teams am 19.00 ar Nos Fawrth Hydref 19 2021.

156.10.21

Presennol :- Cynghorwyr Selwyn Griffiths, Ian Wyn Jones, Gwilym Jones, Aled Griffith, Richard Williams, Dr Simon Brooks, Jason Humphreys

Dafydd Einion Jones – Swyddog Cefnogi Cymuned Gwynedd

Marian Roberts (Clerc)

Absennol :- Cynghorwyr Linda Wyn Roberts, Carol Hayes, Stuart Nashir-Hallard, Malcolm Humphreys, Bethan Rees Jones

Ymddiheuriadau :- Cynghorwyr Alwyn Gruffydd, Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Nia Jeffreys, Dr Melfyn Edwards

157.10.21 Cyflwyniad gan Dafydd Einion Jones, Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd ar brosiect 'Ardal Ni 2035'.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, Llywelyn Rhys, cymerodd yr Is-Gadeirydd, Cyng Selwyn Griffiths y Gadair. Roedd y Cadeirydd eisoes wedi gyrru ymddiheuriadau i'r gŵr gwâdd, Dafydd Einion Jones, am fethu cadeirio'r cyfarfod ac wedi gyrru sylwadau manwl iddo i'w cynnwys yn ymatebion y Cyngor Tref i'r cwestiynau yn y llythyr gwreiddiol.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Cyng Selwyn Griffiths a mynegodd ei siom nad oedd mwy o'r Cynghorwyr yn bresennol. Diolchodd i'r Clerc am sicrhau fod aelodau'r Cyngor wedi derbyn yr holl ddogfennaeth ar gyfer y drafodaeth heno. Estynodd groeso i'r gŵr gwâdd, Dafydd Einion Jones a diolchodd iddo am ei amser a'i barodrwydd i ddod i annerch y Cyngor Tref mewn cyfarfod rhithiol.

Dechreuodd Dafydd Einion Jones ei anerchiad drwy ddiolch am y gwahoddiad i'r cyfarfod. Eglurodd mai Alys Lloyd Jones sydd fel arfer yn delio â materion yn ymwneud â Phorthmadog a'i fod yntau efo cyfrifoldeb dros ardal Dyffryn Ogwen a Bangor. Dywedodd fel yr oedd Cyngor Gwynedd fel arfer yn cymryd yr awennau wrth ymdrin â phrosiectau fel hyn ond eu bod wedi penderfynu ymgynghori mwy efo cymunedau yn lleol er mwyn adnabod anghenion a blaenoriaethau gwahanol ardaloedd.

Roeddynt am ddefnyddio'r prosiect Ardal Ni 1035 fel modd i fapio llwybr i'r Cyngor er mwyn gweld y ffordd ymlaen. Eglurodd fod Gwynedd wedi cael ei rhannu i 13 ardal o ran dalgylchoedd Ysgolion Uwchradd er fod peth beirniadu wedi bod ar hyn gan fod cymaint o amrywiaeth o ran anghenion rhwng ardaloedd gwledig a rhai mwy trefol.

Mae 3 rhan i'r broses a amlinellir yn Ardal Ni 2035 :-

Cam 1. Canfod yr egwyddorion cyffredinol.

Sut mae cymunedau yn gweld eu hardaloedd?

Beth fasa nhw'n newid?

Byddai'r Tîm Cefnogi Cymunedau wedyn yn gweithredu ar yr egwyddorion hynny.

Cam 2. Ymgynghori â mwy o grwpiau gan ddibynnu ar adborth yn Cam 1.

Mae cyfyngiadau Cofid wedi bod yn broblem gan fod ymgynghori fel hyn yn gweithio'n llawer gwell mewn neuadd gyhoeddus yn hytrach na mewn cyfarfod rhithiol. Hyn i ddigwydd tu canol i ddiwedd mis Tachwedd.

Cam 3. Gwanwyn 2022

Troi canfyddiadau o'r trafodaethau lleol i raglenni gwaith i'r 13 ardal a plethu efo'r gwaith mae'r Cynghorau Cymuned yn ei wneud yn barod yn eu hardaloedd.

Gobeithir gweld y broses yn dwyn ffrwyth erbyn Gwanwyn 2022 ond mae problemau Cofid wedi llesteirio rhywfaint ar y broses ymgynghori cychwynnol.

158.10.21 Ymateb y Cyngor Tref i'r 3 cwestiwn yn llythyr gwreiddiol Dafydd

Einion Jones (Gohebiaeth 12 14.9.21)

(ebst gwreiddiol 18.8.21 ac atodiadau wedi eu ail-ebostio ymlaen i'r Cynghorywr ar 13.10.21)

Diolchwyd i Dafydd Einion Jones am fynychu'r cyfarfod tu allan i'w oriau gwaith a nododd yntau nad oedd ganddo hawl i fynychu cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb dim ond cyfarfodydd rhithiol fel hyn. Cafodd pob Cynghorydd gyfle i ymateb yn unigol i'r 3 cwestiwn ac roedd eu hymatebion yn aml yr un fath ac yn gytûn yn eu barn neu safbwynt.

Dyma grynodedb o'r sylwadau :-

1.(a) Beth sydd yn dda am yr ardal ?

Golygfeydd godidog; lleoliad da rhwng y môr a'r mynyddoedd; ysbryd cymuned dda; Cymreictod yr ardal; 2 Reilffordd sy'n denu ymwelwyr ac yn creu swyddi; harbwr; siopau annibynnol da yma; traethau sy'n denu ymwelwyr.

Nodwyd y canlynol fel y pethau sydd wedi cael eu colli yn ddiweddar :-

- Y Coliseum – fel adnodd cymdeithasol bwysig yn ogystal â fel sinema
- Y Swyddfa Dreth – yn darparu gwaith i bobl leol
- Y Clwb Ieuencid – yn darparu gweithgareddau a chyfle i'r ifanc gymdeithasu
- Digwyddiadau cymdeithasol fel y Carnifal
- Y Siambr Fasnach – adnodd gwerthfawr i fusnesau lleol

1(b) Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?

- Gormodedd o **ymwelwyr** – y gor-dwristiaeth diweddar ddim yn gynaliadwy – angen mwy o gyfleusterau ar eu cyfer – un toiled ym Morfa Bychan ddim yn ddigonol.
- Gormod o **drafnidiaeth**; problemau parcio; er gwaetha'r ffordd osgoi mae ymwelwyr yn dal i orfod dod trwy'r dref i fynd i'r traeth;
- Gormod o **dai haf** – dros hanner un stâd o dai ym Morfa Bychan yn dai haf – prisiau tai lleol wedi codi 25% o'r herwydd
- **Angen adeiladu tai newydd** - Lleoliad unigryw Porthmadog ar orlifdir yn golygu na chaniateir adeiladu tai newydd –pwysig felly edrych ar Borthmadog ar wahân i ardaloedd eraill – buasai'n ddelfrydol fel lleoliad i brynu stoc dai yn ôl er mwyn eu gosod i denantiaid. Mae Porthmadog wedi colli allan ar y cyfle i adeiladu 140 o dai newydd yn ddiweddar – yr rhain wedi cael eu adeliadu ym Mhenrhyndeudraeth ac yng Nghricieth.
- **Safle'r Gymraeg** ym Mhorthmadog wedi newid – angen rhoi blaenoriaeth i warchod yr iaith – angen buddsoddiad o Wynedd a Llywodraeth Cymru.
- Angen **paratoi'r dref** at gyfer nifer cynyddol o ymwelwyr ers Cofid – angen mwy o westai fel Premier Inn i wasanaethu'r dref ac i greu swyddi.
- Dim **cwmni cydweithredol** ym Mhorthmadog – buasai'r dref yn derbyn mwy o fuddsoddiad petai un yn bodoli yma.
- Dim buddsoddiad mewn **cyfleusterau ar gyfer y Celfyddydau** fel a welwyd ym Mhwillheli, Caernarfon a Bangor.
- Angen dod a **mwyn o waith** i'r ardal er mwyn codi lefel cyflogau – pobl ifanc yn symud i fyw i ardal Caernarfon er mwyn cael swyddi proffesiynol.
- Angen **gwella trafndiaeth** gyhoeddus ac amserlenni.

- Angen datblygiad o **Uned Iechyd** pwrpasol i dref Porthmadog.
- Angen “**Integrated Plan**” – sefydlu gwaith a chartrefi ar gyfer y gweithwyr.

2. Dychmygwch yn y flwyddyn 2035 eich bod yn byw yn yr ardal ddelfrydol. Beth fyddai wedi newid er mwyn i hyn ddigwydd? (adnabod 3-5 maes blaenoriaeth. Wrth ddod i'ch casgliad, mae croeso i chi ystyried yr ystadegau a'r penawdau yn y llyfryn electroneg 'Datganiad Ardal' sydd wedi ei atodi)

Gweithredu ar yr argymhellion a nodwyd uchod yn 1(b).

Trafodwyd y syniad o rai Cyngorau Cymuned yn dod at ei gilydd i gyd-weithio ar gyfer y prosiect yma. Nodwyd fel yr oedd ardal Bethesda wedi elwa pan ddaeth 3 Cyngor Cymuned at ei gilydd i gyd-weithio ar brosiectau megis hyrwyddo ynni gwyrdd; trafnidiaeth; a phrynu ac addasu siopau gwag lleol. Cafwyd awgrym y dylid cyflogi swyddog pwrpasol i ardal Porthmadog i gydlynu prosiectau'r dyfodol.

Nodwyd fod angen cwmni cydweithredol ym Mhorthmadog. Eglurwyd fel yr oedd cwmni Rheilffordd Ffestiniog wedi derbyn grant Loteri Treftadaeth o £3.1 miliwn a'u bod hwythau'n cyfrannu gweddill yr arian i greu buddsoddiad o £4miliwn i wella ac i ddatblygu'r busnes. Gobeithir gweld y cwmni'n buddsoddi mewn mwy o swyddi i bobl leol ac i godi proffil y Gymraeg yn eu busnes. Roedd y cwmni wedi ffynnu oherwydd bod gwagle yn bodoli yn y dref a dim cystadleuaeth rhyngddynt â chwmni cyffelyb.

3. a. Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu hangen? B. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Eglurwyd fel yr oedd y cyfnod Cofid presennol wedi llesteirio unrhyw gyfarfodydd cymdeithasol megis cymdeithasau a chlybiau. Nodwyd bod cymdeithasau yn araf bach yn dod yn ôl i gyfarfod yn gyhoeddus. Oes angen hybu mwy o grwpiau lleol i hwyluso'r broses o wireddu prosiect Ardal Ni 2035 er mwyn rhoi hyder iddynt gyflawni rhywbeth eu hunain?

Cytunodd Dafydd Einion Jones i yrru rhestr at y Clerc (i'w yrru ymlaen at y Cyngorwyr) o gymdeithasau/grwpiau sydd eisoes wedi cyflwyno eu sylwadau ynglyn â phrosiect Ardal Ni 2035. Diolchodd Dafydd Einion Jones i'r Cadeirydd am ei ebost yn cynnwys ei sylwadau a diolchodd i'r Cyngorwyr am iddynt rannu eu syniadau. Bydd yn cysylltu eto pan fyddwn yn symud i Cam 2.

159.10.21 Ceisiadau Cynllunio

(a) Rhif Cais : C21/0891/44/AC (wedi ebostio 14.10.21)

Lleoliad : 10, Cae Ffynnon Chalet Park Lôn Gwydryn, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd,
Bwriad : Diwygio amod 2 ar ganiatad cynllunio 33/65/139H er mwyn diwygio cyfnod meddiannu'r siale i rhwng 1 Mawrth i 31 Rhagfyr mewn unrhyw flwyddyn
LL49 9YQ

PENDERFYNIAD : DIM GWRTHWYNEBIAD AR YR AMOD NA FYDD YMESTYN AR Y CYFNOD 9 MIS yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

(b) Rhif Cais / Application No.: C21/0990/44/HD (wedi ebostio 14.10.21)

Lleoliad : 8, Modurdai Isgraig Isgraig, Tremadog, Gwynedd, LL49 9PT
Bwriad : Dymchwel 3 modurdy

PENDERFYNIAD : DIM GWRTHWYNEBIAD

Daeth y cyfarfod i ben am 20.15

Marian Roberts
20.10.21

DRAFT